wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru




# Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru:

# Nodiadau tuag at bennod ar ddiwylliant

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

BLOCK, Nofit State
Sgwâr Gwanghwamun, De Corea

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi Strategaeth Ryngwladol. Fel rhan o'r ymgynghoriad i lywio'r strategaeth hon, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymgynnull nifer o gyfarfodydd. Mae'r nodyn hwn yn casglu rhai o'r themâu a'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y trafodaethau hynny. Hefyd, mae'n tynnu sylw at destunau y gellid eu cynnwys yn y strategaeth maes o law.

Y disgwyl yw y bydd y Strategaeth Ryngwladol yn gryf ei chanolbwynt ac yn ymarferol. Bydd yn ddogfen sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu mesuradwy. Fodd bynnag, mae'r strategaeth ei hun hefyd yn cynnig cyfle i ehangu dull o weithio ac uchelgais newydd, gan sicrhau bod diwylliant Cymru'n cyrraedd ei botensial rhyngwladol.

Gallai'r dull newydd olygu y bydd diwylliant yn tanategu ymgyrch cydberthnasau rhyngwladol Cymru drwy gydlynu'r gwaith o ddod ynghyd rhai o asedau diwylliannol cryfaf y genedl (ym meysydd y celfyddydau, dylunio, digidol, ffilm a theledu, treftadaeth, llenyddiaeth, cyhoeddi, sgiliau a chwaraeon) ag asedau rhyngwladol Cymru (rhwydwaith byd-eang Llywodraeth Cymru o swyddfeydd a staff; asiantaethau llywodraethol a llysgenadaethau'r DU; presenoldeb mewn digwyddiadau arddangos a masnach rhyngwladol; cenadaethau masnach a diwylliannol; aelodaeth o rwydweithiau a chymdeithasau masnach; canolfannau a chymdeithasau diwylliannol, cyn-fyfyrwyr a'r Gymru ar wasgar, ac asedau digidol cysylltiedig).

Bydd y bennod ar ddiwylliant yn y strategaeth yn gryno ac yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae agenda cydberthnasau diwylliannol Cymru'n haeddu ei chanolbwynt ei hun a gallai danategu'r holl strategaeth. Mae'r trafodaethau manwl sydd wedi codi yn sgil yr ymgynghoriad wedi datgelu syniadau uchel eu hansawdd sy'n haeddu cael eu rhannu yn ystod y cam paratoi hwn. Ni ddylid colli'r gwaith hwn, hyd yn oed os na chaiff ei gynnwys yn nogfen y strategaeth derfynol.

Rhaid i'r strategaeth gyflawni manteision economaidd i Gymru. Ond bydd y ffordd y mae'n gwneud hynny yn allweddol. Dylai'r bobl a'r cymunedau yng Nghymru gael eu hysbrydoli a dylent ymwneud â'r byd drwy ansawdd a chyrhaeddiad asedau diwylliannol Cymru. Mae enw da Cymru ledled y byd yn dibynnu ar hyrwyddo hunaniaeth sy'n hyderus a nodweddiadol ac sydd wedi'i gwreiddio mewn mynegiad clir o werthoedd a diwylliant Cymru.

Mae gan ddiwylliant rôl sylweddol i'w chwarae wrth helpu i dynnu sylw at amcanion rhyngwladol y strategaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithgareddau y mae diwylliant yn ymwneud â nhw – y celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth, chwaraeon, digwyddiadau mawr a thwristiaeth. Fodd bynnag, mae diwylliant yn cyfrannu at lawer o agweddau eraill ar fywyd dinesig ac mae'r nodiadau hyn yn cynnig awgrymiadau a allai helpu i fywiogi penodau eraill yn y strategaeth.

## Gwlad sy'n llawn asedau diwylliannol

Peidiwch ag anwybyddu ymdeimlad o weledigaeth. Felly dychmygwch Gymru newydd fyd-eang - cenedl y clywir ei lleisiau amlieithog ar lwyfannau'r byd, mewn ffilmiau a gemau, cenedl fach sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y disgwylir ganddi o ran digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, y mae ei chyd-dreftadaeth yn estyn allan dros gyfandiroedd.

A phan fyddwch wedi gwneud hynny – ei dychmygu, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani a'i dathlu – ceisiwch feddwl am ein gwlad heb gân, y gair llafar ar y llwyfan ac ar y sgrin, heb ein timau chwaraeon cenedlaethol na chwaith ein cestyll a henebion hanesyddol, heb farddoniaeth a nofelau, a dawns a cherfluniau a cherameg a darluniau a delweddau, ein dwy iaith a'r holl draddodiadau byw sy'n gwneud ein diwylliant cyfoes mor ddynamig.
Dyna pam mae diwylliant yn bwysig, a pham mae'n haeddu presenoldeb amlwg yn ein strategaeth.

Rydym yn frwdfrydig dros ddiwylliant yng Nghymru. Ond rydym yn hoff o'r camau bach hefyd. Yn ysbryd ein nawddsant, Dewi, daw pethau gwych gan ddau unigolyn a dau ddiwylliant yn canu gyda'i gilydd. Y diben yw cyrraedd ymdeimlad gwirioneddol o'n lle yn y byd.

Er gwaethaf holl ffws a ffwdan ein cynnydd trwy'r mileniwm newydd, ni wyddwn lawer am y byd rydym yn byw ynddo. Yn bennaf, ni wyddwn lawer am y rheswm rydym yma, ac ni wyddwn lawer am yr hyn yr ydym mewn gwirionedd.

Mae diwylliant yn ein helpu i archwilio ein hymdeimlad o le a'r byd sydd o'n cwmpas. Mae'n ein helpu i werthfawrogi doethineb a harddwch, mewnwelediad a safbwynt.

Mae ein diwylliant yn ein huno – yng Nghymru ac yn y byd.

Mae ein brwdfrydedd dros y celfyddydau a chwaraeon yn ein cysylltu â diwylliannau ar lefel ryngwladol. Mae'n galluogi trafodaeth amlieithog sy'n unigryw i Gymru yn y DU. Mae'r Saesneg yn iaith gyffredin ddefnyddiol i'r rhan fwyaf o fusnesau'r gorllewin. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio'r Saesneg y tu hwnt i'r DU yn siarad iaith arall hefyd, ac felly'n ymwneud â chyfres wahanol o weithgareddau diwylliannol hefyd. Yn ieithyddol, mae gan y Gymru ddwyieithog fwy yn gyffredin â chenhedloedd eraill. Mae manteisio ar y cryfder hwn yn rhoi ased diwylliannol nodweddiadol i Gymru ledled y byd.

# Ein gwerthoedd fel cenedl

Mae ein gwerthoedd yn ein harwain i ganfod y partneriaid cywir a'r lleoedd cywir i weithio ynddynt.

Rydym yn credu mewn Cymru sydd:

- yn gymunedol ac yn ymgysylltu'n gymdeithasol
- yn oddefgar, yn barchus, yn agored, yn gydradd ac yn amrywiol
- yn gwerthfawrogi ei diwylliant
- yn cynnal pwysigrwydd rhyddid mynegiant
- yn pennu gwerth ar ei dinasyddion fel dinasyddion byd-eang cyfrifol ac yn credu yn eu hawl i fyw bywyd diwylliannol cyfoethog a chyfrannu ato
- yn ymfalchïo yn ei dwyieithrwydd ac yn dathlu ei chymunedau amlieithog
- yn pennu gwerth ar ei hamryw ieithoedd fel pontydd naturiol i ddiwylliannau eraill

Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hon yw'r cynllun hirdymor a ddylai arwain datblygiad ein strategaeth.

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Cymru lewyrchus

Mae Cymru lewyrchus yn meithrin doniau creadigol, yn hyrwyddo twf economaidd ac yn ymfalchïo yng Nghymru fel lle cymhellol i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef. Dros Gymru gyfan, mae canolfannau celfyddydau wedi chwarae rôl bwysig yn y gwaith o adfywio a rhoi hyder i'n pobl i lwyddo yn eu bywydau. Mae'r celfyddydau a diwylliant yn hyrwyddo delwedd gadarnhaol gartref a thramor. Maent yn cynnal ymdeimlad y genedl o falchder a llesiant, gan gynnig y cofiadwy, yr ysbrydoledig a'r pleserus. Mae'r diwydiannau creadigol a diwylliannol yn sbardun hanfodol i economi Cymru. Yn y DU, mae swyddi creadigol wedi cynyddu 28.6% ers 2011 ac, erbyn hyn, cyflogir 2 filiwn a mwy o bobl yn y sector creadigol, sef un ymhob 11 o swyddi yn y DU, ac mae'r diwydiannau creadigol yn cyflogi 700,000 mwy o bobl na'r gwasanaethau ariannol. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol o ran swyddi a chreu cyfoeth, trwy greu, dosbarthu a masnachu nwyddau a gwasanaethau. Hefyd, maent yn helpu i roi Cymru ar y map rhyngwladol, gan godi amlygrwydd ei delwedd ledled y byd a gwneud y wlad yn amgylchedd diwylliannol ddeniadol i ymwelwyr ac i fusnesau fuddsoddi ynddi. Ond mae angen gwneud llawer mwy i gysylltu ein diwylliant a'n heconomi greadigol â'r cyfleoedd sylweddol y mae marchnadoedd newydd yn Asia yn eu cynnig.

## Cymru gydnerth

Mewn byd sy'n newid, mae angen i bawb gydweithio a chydweithredu'n fwy. Nid dyma adeg i godi'r pontydd neu adeiladu waliau. Mae'n bryd paratoi'n ddiwylliannol i weithio mewn lleoedd lle nad yw Cymru'n hysbys. Bu'n rhaid inni adfer ein hunain sawl gwaith yn y gorffennol ac mae'n rhaid inni wneud hynny eto. Gan fod swyddi ac incwm mewn diwydiannau traddodiadol ledled y wlad - megis ffermio, pysgota, mwyngloddio - wedi dirywio neu ddiflannu, bu'n rhaid i dwristiaeth gamu i'r adwy ac arwain y gwaith adfywio. Mae'r harbwrs wedi esblygu i fod yn farinas ac yn ganolfannau hyfforddiant hwylio, mae gan warysau ardaloedd dociau fywydau newydd fel amgueddfeydd, orielau a setiau ffilm, mae rheilffyrdd nas defnyddir wedi'u troi'n llwybrau beicio, ac mae crefftau wedi disodli gwartheg mewn ysguboriau diangen. Rydym hefyd wedi dod yn fwy soffistigedig wrth werthu Cymru, gan ymdrechu i ddatblygu twristiaeth i greu refeniw ledled y flwyddyn yn lle elw tymhorol yn unig trwy fanteisio ar apêl ein trysorau diwylliannol unigryw. Bydd y ffordd rydym yn wynebu'r her ddigidol wrth wraidd ein gwydnwch.

Ond mae'n rhaid i Gymru gydnerth fod yn Gymru oddefgar ac agored hefyd - yn y byd go iawn ac ar blatfformau digidol. Mae cydweithredu diwylliannol ar lefel ryngwladol yn dod â phobl ynghyd. Mae'n annog archwilio ac ymdeimlad o chwilfrydedd. Mae'n lleihau ofn y gwahanol a'r anhysbys.

Mae gan y celfyddydau, diwylliant ac, yn arbennig, y Gymraeg wydnwch a gaiff ei barchu'n rhyngwladol. Maent yn goroesi mewn ecosystem amlddiwylliannol ac amlieithog diwylliannol ac amgylcheddol sydd, yn ddiofyn, yn rhyngwladol.

## Uchelgeisiol a dysgu

Gall y celfyddydau a diwylliant feithrin gallu unigolyn ifanc i gwestiynu a chreu cysylltiadau a datblygu'r gallu i feddwl yn feirniadol ac yn annibynnol. Gallant ysbrydoli pobl ifanc i fagu uchelgeisiau a hyder

newydd, gan herio diffyg dyheadau a thorri'r cylch amddifadedd. Gall hyn greu'r llwybr at addysg bellach ac addysg uwch a chyflogaeth a menter yn y pen draw.

Mae'r celfyddydau'n ysbrydoli … gallant hefyd gysylltu pobl ifanc yn greadigol â'r byd y tu hwnt. Maent yn gwneud hynny bob dydd - yn ffurfiol yn yr ysgol ac yn anffurfiol trwy'r teulu, platfformau digidol, a phrofiadau byw mewn clybiau ieuenctid fel Eisteddfod yr Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc. Ac, eto, gellir gwneud mwy i helpu pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i gael eu hysbrydoli gan gelfyddyd wych, a hefyd i gael mynediad i'r byd y tu hwnt i'w ffiniau neu brofiadau eu hunain.

Mae'n werth mapio a datblygu mentrau i annog plant yng Nghymru i ymwneud â diwylliannau eraill (boed hynny yn yr ysgol neu'n anffurfiol) gan sefydliadau partner megis Cysylltu Dosbarthiadau'r British Council neu Sefydliad Confucius Tsieina neu sector y celfyddydau ei hun, yn ogystal â meincnodi yn erbyn yr hyn mae gwledydd eraill yn ei gynnig i'w plant.

## Cymru iachach

Mae swm mwyfwy o ymchwil academaidd wedi dangos yr effaith gadarnhaol y gall ymwneud â gweithgareddau creadigol a'r celfyddydau ei chael ar iechyd a llesiant. Trwy ychwanegu at feddyginiaeth a gofal, gall y celfyddydau wella iechyd pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol.

Llesiant, ar ei ffurf fwyaf eang, yw un o ddeilliannau allweddol gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau. Gall creadigrwydd, diwylliant a'r celfyddydau helpu i godi dyheadau, hyder, ac ymdeimlad o gymuned a chydlyniant, yn ogystal â llesiant unigolion a chymunedau. Maent yn rym pwerus wrth ddatblygu gwell iechyd cyhoeddus.

Er bod Cymru'n arwain y byd o ran celfyddydau i bobl hŷn, mae ein gwaith ar y celfyddydau mewn iechyd yn cael effaith fuddiol ar draws yr amrediad llawn o oedrannau, dosbarthiadau a daearyddiaeth yng Nghymru. Ceisir y profiadau hyn ar lefel ryngwladol ac mae angen sgiliau gwerthfawr mewn gwledydd fel Japan a Tsieina, a chanddynt boblogaethau sylweddol sy'n heneiddio. Mae heneiddio'n creu heriau diwylliannol yn ogystal â heriau iechyd.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

Ein dyhead yw bod yn gymdeithas sy'n cofleidio cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, boed hynny mewn hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, anabledd neu dlodi. Wedi'r cyfan, mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol wrth reddf ac yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion.

Caiff anghydraddoldebau a thlodi yn ein cymunedau eu hadlewyrchu yn y rhwystrau diwylliannol, cymdeithasol, ffisegol ac economaidd niferus sy'n atal mynediad pobl i'r celfyddydau. Mewn rhai achosion, gall cymunedau deimlo'r un faint o gysylltiad â gwlad yn rhywle arall ag y teimlant â'u cyd-ddinasyddion yma yng Nghymru.

Mae creu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n dathlu rhyngwladoldeb trwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb a rhannu arferion da o ran gwaith cynhwysol, yn uchelgais newydd i'n gwaith a'n buddsoddiad.

## Cymru o gymunedau cydlynus

Mewn rhai achosion, gall cymunedau deimlo'r un faint o gysylltiad â gwlad yn rhywle arall ag a deimlant â'u cyd-ddinasyddion yma yng Nghymru. Gall y celfyddydau a diwylliant ddarparu cyfeiriadau a chyd-destun diwylliannol newydd sy'n creu ymdeimlad o ryngwladoldeb, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb a rhannu ymarfer da o ran gwaith cynhwysol ar lefel ryngwladol.

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw mai Cymru yw'r genedl fwyaf creadigol weithredol yn Ewrop, ac mae creu "[c]ymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg" a diwylliant sy'n gwahodd ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yn allweddol. Ein diwylliant yw craidd yr uchelgais hwnnw.

Mae cymryd rhan yn creu pob math o fanteision. Mae'n creu mwynhad, ond hefyd mae'n helpu pobl i fod yn hyderus ac i ddarganfod amdanyn nhw eu hunain ac am eu cymunedau. Gall roi hwb i'w llesiant personol, corfforol a meddyliol.

Mae ein hymarferwyr a chwmnïau celfyddydau'n siarad yn effeithiol yng Nghymru a drosti, a hynny gartref a thramor. Gwyddwn fod y celfyddydau, diwylliant ac ieithoedd yn rhoi personoliaeth unigryw i Gymru. Maent yn dod â'r byd i'n cymunedau ac yn cynrychioli Cymru ledled y byd. Mae arbenigedd ieithyddol a dwyieithrwydd Cymru yn golygu ein bod yn unigryw yn y DU a'n bod yn cynnig atyniad unigryw ar lefel ryngwladol. Er mai Cymraeg yw iaith hynafol gyfoes Prydain, sef Brythoneg, y mae wedi goroesi'r canrifoedd trwy arloesedd ieithyddol a diwylliannol effeithiol.

Er bod datblygiadau llenyddol ac ieithyddol allweddol bellach ar ffurf ddigidol, yn hanesyddol mae ymgysylltu diwylliannol rhyngwladol y Gymraeg yn dyddio ymhell yn ôl cyn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg am y tro cyntaf. Digwyddiadau arloesol cenedlaethol allweddol eraill eu cyfnod oedd sefydlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru, BBC Cymru ac S4C. Yn fwy diweddar ym maes y celfyddydau, mae apiau, megis Sibrwd gan Theatr Genedlaethol Cymru (sy'n sibrwd sylwebaeth gyfieithiedig yn eich clust wrth ichi fwynhau'r theatr), yn fodel i ieithoedd eraill ei ddilyn.

Mae gan uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'i buddsoddiad diwylliannol allweddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel prif sioe ddoniau Cymru, a'r cyntaf oll, gyrhaeddiad, cynnydd gyrfa ac apêl bosib ar lefel ryngwladol.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn cydnabod amrywiaeth naturiol a diwylliannol y byd ac yn cydnabod y gall pob diwylliant a gwareiddiad gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a'u bod yn chwarae rôl hollbwysig wrth ei alluogi.

A hithau yw'r genedl gyntaf i wneud diwylliant y pedwerydd piler ar gyfer datblygu cynaliadwy, mae gan Gymru gymaint i'w gynnig i nodau'r Cenhedloedd Unedig o ran rhannu ein profiad a dysgu oddi wrth eraill.

## Lledaenu'r neges – brandio ac ymgyrchoedd

Mae angen blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu dimensiwn diwylliannol ar gyfer y brand *Dyma Gymru* sy'n ddynamig ac yn ddilys. Yn ogystal â bod yn llwyfan i fynegi diwylliant y genedl, gallai fod yn fodd o arddangos potensial creadigol Cymru. Hefyd, dyma gyfle i osod brand Cymru yn ystod digwyddiadau allweddol ledled y byd ac yng Nghymru.

Mae cytundeb eang fod angen brand diwylliannol Cymreig dilys a stori i'w hadrodd fel rhan o raglen drylwyr o ymgyrchu. Dylem ganolbwyntio'n fwy ar ymgyrchu. Dylai unrhyw ymgyrchoedd anelu at naill ai godi proffil Cymru a'i diwylliant neu newid safbwyntiau.

Mae angen i'r brand *Dyma Gymru* fod yn llwyfan a gynhelir hyd braich o'r llywodraeth. Gallai arddangos asedau, sgiliau, arbenigedd ac eiddo deallusol, yn ogystal ag arf i hyrwyddo twristiaeth a masnach. Gallai weithredu fel rhestr o waith ymwneud Cymru mewn dinasoedd penodol a/neu mewn cronfa ddata gwlad. Fodd bynnag, ni fydd ond mor dda â'r mewnbwn a gaiff a'r adnoddau y gall eu sicrhau.

Bydd angen neges glir ynglŷn â Chymru er mwyn gwrthddweud y safbwyntiau negyddol ar y DU yn sgil Brexit. Os oes ymyl arian i Brexit, hwnnw yw bod parodrwydd ac angen i gydweithio'n rhyngwladol mewn ffordd na wnaed erioed o'r blaen.

## Pa flaenoriaeth? Pa wlad?

P’un ai rhesymau economaidd, diplomyddiaeth ddiwylliannol yntau oportiwnistaidd yw’r sbardun, mae’r cwestiwn ynghylch blaenoriaeth ddaearyddol yn parhau. Gellir bod sawl rheswm dros ddewis canolbwynt penodol - gall fod yn economaidd neu’n seiliedig ar ddiplomyddiaeth ddiwylliannol. Gallai fod yn farchnad neu ddigwyddiad arbennig o ddiddorol ar gyfer math penodol o gelf neu rywbeth diwylliannol unigol.

Er y gall y sefydliadau gydweithio mewn marchnadoedd allweddol er mwyn gwella enw da Cymru, bydd angen dilyn cyfleoedd economaidd neu ddiwylliannol penodol bob amser sy’n gwneud synnwyr i gerddorfa, amgueddfa neu dîm pêl-droed. Fodd bynnag, mae’n ymddangos ei bod yn synhwyrol cytuno y bydd gwlad neu ddinas yn ennyn sylw penodol pan gaiff ei blaenoriaethu gan lywodraeth.

## Strategaeth Cymell Tawel y DU

Mae lansiad buan Strategaeth Cymell Tawel y DU yn foment allweddol i ymagwedd Cymru at gydberthnasau diwylliannol.

Caiff y strategaeth cymell tawel ddrafft, a arweinir gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, trwy Grŵp Diplomyddiaeth Ddiwylliannol y British Council (a fynychir hefyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru). Fe’i cyhoeddir ar y cyd â’r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn yr hydref.

Mae gan brif frand cyflenwi’r strategaeth (yr ymgyrch GREAT) oblygiadau i Gymru. Mae’n bwysig na chaiff hunaniaeth Cymru ei hanwybyddu mewn brand sydd ag arwyddocâd gwladychol anffodus i lawer o bobl. Dylem fynnu mwy ar gyfer diwylliant Cymru gan Lywodraeth y DU a’i hasiantaethau a sicrhau bod yr iaith a’r naws a ddefnyddir i gynrychioli Cymru a’r DU yn ehangach yn gyfoes, yn ddiwylliannol barchus, yn groesawgar ac yn anrhydeddus.

## Opsiynau'r strategaeth

Gellid cynnwys rhai o'r canlynol, neu'r holl bethau canlynol, yn y bennod derfynol ar ddiwylliant.

1. **Strategaeth sy'n seiliedig ar werthoedd, uchelgais ac** – mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer y strategaeth..

2. **Strategaeth sy'n ysgogi ac yn cynhyrfu** – dylai'r ddogfen strategaeth derfynol fod yn gyfoes, arloesol ac ymgysylltiol, gan gyflwyno darlun dynamig o Gymru'r 21ain ganrif a'i phobl.

3. **Dull cysylltiedig o gyflawni'r strategaeth** – rhaid i strwythurau fod ar waith i rannu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau a chyfleoedd. Byddai hyn yn golygu:

   - bod pob sector (gan gynnwys y sector diwylliannol) yn cynnal cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn ar gyfer cwmnïau cenedlaethol / cyrff arweiniol y sector er mwyn cyfnewid gwybodaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Dylai hyn gynnwys swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru (y celfyddydau a threftadaeth, y diwydiannau creadigol, chwaraeon, Croeso Cymru, digwyddiadau mawr ac ati);

   - dylai cynrychiolwyr o bob sector gyfarfod bob blwyddyn mewn symposiwm a gynhelir gan y Gweinidog i fonitro cynnydd ac i gynllunio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn y dyfodol.

4. **Rhestr o wasanaethau datblygiadol sy'n adeiladu ar allu sector diwylliannol Cymru i ymgysylltu a chyfranogi'n rhyngwladol** – byddai hyn yn cynnwys:

   - rhaglenni ariannu sy'n cynorthwyo unigolion i deithio, ehangu eu profiad, a datblygu cysylltiadau creadigol newydd;

   - cymorth i fusnesau er mwyn sicrhau bod unigolion a sefydliadau wedi'u paratoi a bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i fanteisio ar farchnadoedd rhyngwladol sefydledig;

   - cymorth i gyfraniad Cymru mewn ffeiriau masnach, arddangosiadau, gwyliau a gwyliau dwyflynyddol, gan gynnwys digwyddiadau arddangos ac ymweliadau dirprwyaeth â Chymru.

5. **Dull targedig** – byddwn yn canolbwyntio ein gwaith cymaint ag y bo modd o fewn y lleoedd hynny lle ceir budd "er lles y mwyafrif" ar gyfer Cymru. Mae'r rhain yn debygol o fod yn ardaloedd lle:

   - mae Llywodraeth Cymru wedi gorfodi'r sector i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol;

   - mae Cymru yn bresennol gydag ymgysylltiad hirdymor a chyda phwysigrwydd gwleidyddol, diwylliannol ac ariannol sy'n gwneud perthynas gynaliadwy yn fwy cyraeddadwy;

   - mae cyfleoedd datblygu sylweddol ar gyfer sefydliadau diwylliannol yng Nghymru;

- mae cysylltiadau perthnasol â bywyd diwylliannol Cymru;

- mae tiriogaethau eraill yn dangos ymrwymiad i weithio gyda Chymru.

6. **Modd cydgysylltiedig** – gwneir mwy o ymdrech i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau Llywodraeth Cymru ar sail meithrin cydberthnasau diwylliannol egalitaraidd – nid cymell 'tawel':

    - dylid creu gallu cydberthnasau diwylliannol yn adran cydberthnasau rhyngwladol newydd Llywodraeth Cymru;

    - dylid datblygu protocolau ar gyfer pob swyddfa dramor Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio sut y bydd yn cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r strategaeth;

    - archwiliad o asedau byd-eang Cymru (e.e. llysgenadaethau'r DU, cyrff llywodraethol y DU, y British Council);

    - Bydd gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu prosiectau rhyngwladol allweddol trwy deithio gyda dirprwyaethau diwylliannol a sicrhau bod diwylliant yn rhan o'r holl ddirprwyaethau masnach.

7. **'Brand' clir, dynamig ac yn ddefnyddiadwy** – dylai *Dyma Gymru* fod yn sail ar gyfer darparu dull cyson o hyrwyddo hunaniaeth Cymru a'i gweithgareddau diwylliannol. Dylai adnoddau'r brand gynnwys:

    - cronfa o ddelweddau cryf sy'n cynnwys asedau diwylliannol Cymru;

    - cyfres o ffilmiau byrion hyrwyddol y gellir eu defnyddio i danategu agweddau allweddol o'r Strategaeth Ryngwladol;

    - gwybodaeth hyrwyddol am asedau diwylliannol Cymru, a fydd ar gael ar ffurf copi caled neu ar-lein.

8. **Dull gweithredu sy'n seiliedig ar ymgyrchoedd** – sy'n ymgysylltu ag amrediad o bartneriaid er mwyn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am Gymru, gan gynnwys:

    - datblygu dull traws-lwyfan ar gyfer hyrwyddo asedau diwylliannol Cymru;

    - manteisio ar botensial digwyddiadau mawr (megis Dydd Gŵyl Dewi, twrnameintiau chwaraeon uchel eu proffil ac ati);

    - recriwtio carfan o lysgenhadon sy'n gallu hyrwyddo delwedd Cymru a'i buddiannau ledled y byd a rhaglen i wneud pob plentyn yng Nghymru yn llysgennad yn y dyfodol, a datblygu prosiect cyn-fyfyrwyr Cymru – sy'n ymgorffori'r rheini a ddewisodd ddod i Gymru er mwyn astudio;

    - Ar Wasgar 2050 – y genhedlaeth newydd o ddisgynyddion o dras Gymreig sydd wedi'u hysgogi gan Gymru, sy'n gwybod am ddiwylliant cyfoes ac sydd wedi'u cysylltu'n ddigidol.

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Mawrth 2019

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

www.wai.org.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**